AGGCC
CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygiad o Wasanaethau Plant

## Cyngor Sir Powys

Hydref 2017

© Hawlfraint y Goron 2017 ISBN digidol 978-1-78859-670-1 WG33116

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Trosolwg o'r canfyddiadau | 4 |
| Argymhellion | 7 |
| Trefniadau mynediad: gwybodaeth, cyngor a chymorth | 11 |
| Asesiad | 14 |
| Gofal a chymorth | 16 |
| Diogelu | 19 |
| Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu | 22 |
| Methodoleg | 28 |
| Cydnabyddiaethau | 29 |

## Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gynnal arolygiad o wasanaethau plant Cyngor Sir Powys yn ystod mis Gorffennaf 2017. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ansawdd yr arweinyddiaeth, y rheolaeth a'r trefniadau llywodraethu er mwyn datblygu a chefnogi gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Gwnaeth yr arolygiad edrych yn fanwl ar sut mae plant a theuluoedd yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth, a gwasanaethau gofal a chymorth.

Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar lwybrau pobl i mewn i wasanaethau gofal a chymorth. Gwnaethom archwilio sut mae plant a theuluoedd yn cael gafael ar help, gofal a gwasanaethau cymorth.

Gwnaethom ystyried ansawdd y canlyniadau a gyflawnir i blant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a/neu ddiogelwch, gan gynnwys y rhai hynny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

Gwnaeth yr arolygwyr ddarllen ffeiliau achos a chynnal cyfweliadau â staff, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Gwnaeth yr arolygwyr siarad â'r plant a'u teuluoedd pan oedd yn bosibl.

# Trosolwg o'r canfyddiadau

## Datblygiadau diweddar ym Mhowys

Mae'r awdurdod lleol wedi gweld newidiadau sylweddol ymhlith uwch-reolwyr y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys ymadawiad cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2016, gyda phrif weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu cymorth trwy ymgymryd â swydd cyfarwyddwr strategol pobl dros dro yn rhan amser o fis Ionawr 2017.

Yn ogystal, gwnaeth ymadawiad pennaeth y gwasanaethau plant, a oedd newydd ei benodi ar ddechrau 2017, hefyd arwain at benodi prif swyddog gwaith cymdeithasol dros dro, i wneud gwaith statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, a phenodi pennaeth dros dro ar gyfer y gwasanaethau plant ym mis Mehefin 2017.

Mae'r newidiadau rheoli hyn wedi dilyn cyfnod o newid sylweddol yn dilyn gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ynghyd â heriau ariannol a gorwariant a ragwelwyd, cyflwyno system rheoli cofnodion electronig newydd, a phenderfyniad yr awdurdod lleol i gomisiynu adolygiad allanol mawr o'r gwasanaethau oedolion a'r gwasanaethau phlant, a gwblhawyd yn 2016.

Yn dilyn penodiad prif swyddog gwaith cymdeithasol dros dro ym nis Ebrill 2017, fe nodwyd materion a pryderon o ran gwasanaethau plant a fe ddatblygwyd cynllun gweithredu cynyddol. Mae'r Cyfarwyddwr Statudol dros dro ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod bod angen datblygu hwn ymhellach a darparu cynllun mwy cynhwysfawr sy'n eiddo i'r sefydliad.

## Crynodeb o'r canfyddiadau

Canfuom fod gweithredu argymhellion yr adolygiad allanol wedi ansefydlogi'r gweithlu i raddau sylweddol ac, o ganlyniad, wedi rhoi plant mewn perygl o niwed.

Nid yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cael eu gwasanaethau'n dda gan y trefniadau cyfredol ar gyfer cael gafael ar wasanaethau cymorth ym Mhowys. Roedd diffyg cynllunio ar gyfer asesu, gofal a chymorth, ynghyd â dull anghyson o weithio yn unol â chanllawiau camfanteisio'n rhywiol ar blant a rheoli proses y fframwaith camfanteisio'n rhywiol ac asesu risg yn rhoi plant mewn perygl o niwed. Yn ogystal, nid oedd prosesau amddiffyn plant yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol, gydag oediadau o ran yr ymchwiliadau a'r asesiadau a oedd yn cael eu cynnal ac o ran cwblhau ymweliadau statudol.

Mae tystiolaeth o gyfleoedd coll i ddiogelu plant, serch ceisiadau am gymorth. Nid yw risgiau yn cael eu hasesu'n briodol nac yn ddigon cadarn ac nid oes unrhyw system effeithiol i nodi a rheoli risgiau.

Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plant wedi'u gosod gan y tîm arweinyddiaeth dros dro, ynghyd ag aelodau o'r tîm rheoli gweithredol. Fodd bynnag, mae angen cryn dipyn o gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol i wireddu'r weledigaeth hon. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'i chynnwys y tu allan i'r gwasanaethau plant a, chan ystyried ei dibyniaeth ar gefnogaeth lawn y cyngor, mae hyn yn destun pryder.

Mae problemau perfformio difrifol o ran y gwasanaethau rheng flaen, ond mae'r rhain yn codi oherwydd y rheolaeth ansefydlog, arweiniad gwael a dryslyd, a llywodraethu gwan. Heb gymorth effeithiol a gallu i wneud y gwaith, nid oes disgwyl i'r staff rheng flaen gyflawni'r gwaith cymhleth sydd ei angen mewn gwasanaethau cymdeithasol plant.

Nododd yr arolygwyr ymrwymiad y staff, sydd wedi dangos gwydnwch a phroffesiynoldeb wrth ymdopi â newidiadau sylweddol, a llai o wasanaethau cymorth a gallu arweinyddol. Rydym wedi gweld ymrwymiad go iawn i amddiffyn ac ymateb i ddiogelu plant dan amgylchiadau anodd iawn. Mae'r staff wedi cefnogi ei gilydd trwy adegau heriol ac anodd ac wedi dangos i ni eu bod yn awyddus iawn i symud ymlaen.

Mae'r argymhellion isod yn nodi'r prif feysydd y dylai'r gwaith gwella a datblygu ôl-arolygiad ganolbwyntio arnynt.

## Y Camau Nesaf

Mae AGGCC yn disgwyl i Gyngor Sir Powys lunio cynllun gwella mewn ymateb i'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn o fewn 20 niwrnod i'w gyhoeddi.

Bydd y cynllun gwella yn cael ei fonitro'n agos yn ystod ein rhaglen arolygu, ymgysylltu ac adolygu perfformiad trwy gydol 2017/18.

Oherwydd y pryderon difrifol a nodwyd yn yr arolygiad hwn, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal ail arolygiad o wasanaethau plant Powys o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Argymhellion

### Blaenoriaeth ar unwaith (o fewn un mis):

Rheoli achosion

1. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol a'u gwneud mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd.

Staffio

2. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr tîm ac uwch-ymarferwyr er mwyn sicrhau y gellir darparu trosolwg rheoli a phrofi penderfyniadau effeithiol a chyson, ynghyd â darparu cymorth ac arweiniad ar gyfer staff rheng flaen.

3. Dylai uwch-reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd goruchwyliaeth staff rheng flaen. Rhaid rhoi mecanwaith sicrhau ar waith i wneud yn siŵr y cydymffurfir â'r disgwyliadau a sicrhau ansawdd penderfyniadau, cadw cofnodion ac adrodd.

4. Mae angen monitro llwythi achos er mwyn sicrhau bod digon o allu gan weithwyr i ymgysylltu'n effeithiol â phlant a'u teuluoedd.

Arweinyddiaeth

5. Rhaid i'r prif weithredwr ddarparu cymorth corfforaethol ar unwaith i'r gwasanaethau plant er mwyn sicrhau bod gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliant yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.

6. Rhaid i arweinydd y cyngor a'r aelod portffolio ddarparu cymorth gwleidyddol cryf ar gyfer y gwasanaethau plant a chymryd y camau angenrheidiol i roi gwaith craffu gwybodus ac effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod gwelliannau i'r gwasanaeth yn cael eu gwneud yn gyflym ac yn effeithiol a'u bod yn gynaliadwy.

Sicrwydd

7. Rhaid rhoi blaenoriaeth i weithredu mecanwaith sicrhau er mwyn gwneud yn siŵr y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth, y canllawiau statudol a'r protocolau o ran plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn perygl.

**Blaenoriaeth tymor canolig (o fewn pedwar mis):**

Rheoli achosion

8. Rhaid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau er mwyn sicrhau eu bod o ansawdd da, gyda phwyslais eglur ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod y canlyniadau, yr amserlenni a'r cyfrifoldebau dros weithrediadau yn eglur.

9. Rhaid gwella ansawdd a chysondeb y cofnodion a gedwir a'u hamseroldeb. Rhaid i'r holl staff a rheolwyr sicrhau bod y cofnodion o ansawdd da, yn gyfredol, ac yn cael eu storio'n drefnus.

10. Rhaid i'r awdurdod lleol egluro rôl a diben Llinell Uniongyrchol Powys o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyffredinol a rhaid iddo sicrhau bod gan staff a phartneriaid ganllawiau clir i gefnogi penderfyniadau. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn fedrus ac yn cael eu cefnogi i gyflawni'r rôl hon. Mae angen protocol clir rhwng Llinell Uniongyrchol Powys a'r tîm dyletswydd argyfwng er mwyn sicrhau na chaiff achosion eu colli rhwng gwasanaethau.

11. Rhaid i'r awdurdod lleol roi model asesu effeithiol ar waith i gefnogi ei ymyriadau â theuluoedd, a rhaid i hwn fod yn ddealladwy i bob aelod o staff a phob partner, ac yn seiliedig ar hyfforddiant a datblygiad cadarn.

12. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaeth maethu yn darparu cymorth, hyfforddiant ac arweiniad cyson i ofalwyr maeth er mwyn gwella ansawdd ac argaeledd lleoliadau.

13. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan bob cynllun gofal a chymorth bwyslais clir ar ganlyniadau i blant, sy'n cynnwys llais y plentyn.

Staffio

14. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob cyflogai yn deall y gofynion deddfwriaethol a statudol o ran diogelu plant a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â pherfformiad gwael.

15. Dylid datblygu strategaeth gadarn i'r gweithlu ar unwaith, a fydd yn cynnwys cynlluniau tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a staff uwch. Mae penodi pobl yn barhaol i swyddi allweddol yn flaenoriaeth uchel er mwyn rhoi gwydnwch a sefydlogrwydd i'r gwasanaeth.

Gwaith rhyngasiantaeth/partneriaeth

16. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddi amlasiantaeth effeithiol er mwyn sicrhau bod trothwyon asesiadau ar gyfer gwasanaethau plant statudol yn ddealladwy i'r staff a'r partneriaid ac yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol amlasiantaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn ag amddiffyn plant.

17. Mae angen arweiniad strategol clir, a gefnogir gan brotocolau gweithredol, er mwyn galluogi partneriaid i gael dealltwriaeth glir o ddiben, strwythur a phroses benderfynu'r gwasanaethau plant.

Arweinyddiaeth

18. Dylid rhoi ystyriaeth gynnar i effaith y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad a gomisiynwyd ac a ddylid ailedrych ar benderfyniadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad.

19. Mae angen i aelodau etholedig fod yn glir ynghylch y weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau plant a chydnabod ei fod yn faes risg uchel i'r cyngor. I gefnogi hyn, mae angen i aelodau gael eglurder ynghylch cyfeiriad y gwasanaethau a'r risgiau penodol sy'n gynhenid mewn gwasanaethau plant, a hyfforddiant i ddeall hyn.

20. Rhaid i'r prif weithredwr wneud trefniadau i sicrhau bod gan yr holl aelodau etholedig ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol a'u bod yn gallu cyflawni'r rhain.

21. Mae angen i'r awdurdod lleol wneud gwaith pellach o ran gweithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel bod dealltwriaeth ar lefel gorfforaethol o'r ffordd y caiff gwybodaeth, cyngor a chymorth eu darparu.

Sicrwydd

22. Mae angen ymwreiddio trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, gan gynnwys craffu ar y galw am y gwasanaeth ac archwilio ansawdd yr arferion yn rheolaidd, fel bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd.

23. Rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu systemau a strwythurau ar lefel gorfforaethol er mwyn monitro a gwerthuso'r cynnydd o fewn y gwasanaethau plant yn effeithiol.

24. Rhaid sefydlu system sicrhau ansawdd i sicrhau nad yw teuluoedd a gaiff eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu hanghofio nac yn profi oediadau ac i sicrhau bod cynlluniau wedi'u targedu ar waith sy'n cael eu hadolygu a'u gwirio gan reolwyr.

25. Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r arolygiaeth o ran ymateb i gwynion er mwyn gwella'r gwaith adrodd a dadansoddi a sicrhau bod mecanwaith i gipio'r gwersi a ddysgwyd.

**Blaenoriaeth fwy hirdymor (o fewn 12 mis):**

Rheoli achosion

26. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chynnig gweithredol y Gymraeg.

Gwaith amlasiantaeth/partner

27. Dylid sefydlu protocol amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant i gefnogi penderfyniadau ar yr angen am asesiadau mewn gwasanaethau plant statudol. Mae angen i staff a phartneriaid ddeall hwn a rhaid iddo gael ei gymhwyso'n gyson. Mae angen systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddi amlasiantaeth i gefnogi hyn.

28. Rhaid i'r awdurdod lleol a'r partneriaid weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull cydlynol o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau, sy'n cynnwys barn plant a theuluoedd. Dylid defnyddio hwn fel sylfaen i lywio cynlluniau strategol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn alinio'n effeithiol rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol, a gwasanaethau statudol.

Arweinyddiaeth

29. Bydd angen i newidiadau i'r strwythur a'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol gynnwys ymgynghoriad â phob rhanddeiliad o ran eu siâp a'u datblygiad. Mae angen i'r newid fod yn gynyddol a rhaid gweithredu'r newidiadau ar gyflymder a fydd yn sicrhau ymglymiad llawn staff a phobl ifanc a sicrhau nad yw plant yn cael eu rhoi mewn perygl

## Trefniadau mynediad: **Gwybodaeth, cyngor a chymorth**

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, cael yr wybodaeth ddiweddaraf a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd gan y sector statudol, gwirfoddol a phreifat yn ei ardal. Mae gan bawb, gan gynnwys gofalwyr, fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â gwasanaethau ac maent yn derbyn cyngor a chymorth yn ddi-oed, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r hyn y gallant ei ddisgwyl o ran yr ymateb a gânt gan y gwasanaeth. Mae trefniadau'n effeithiol wrth ohirio neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o fannau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gyda ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae arwyddbostio ac atgyfeirio pobl yn effeithiol yn cynnig dewis i bobl ynghylch cymorth a gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall trefniadau mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaethau yn gweithredu'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

1.1 Sefydlodd yr awdurdod Linell Uniongyrchol Powys ym mis Hydref 2014 fel pwynt mynediad sengl i'r gwasanaethau plant. Ym mis Ebrill 2015, cafodd pwynt mynediad sengl ar gyfer gwasanaethau oedolion hefyd ei gynnwys yn Llinell Uniongyrchol Powys. Mae tîm Llinell Uniongyrchol Powys yn gweithio yn Llandrindod ar hyn o bryd, ac mae'n gwasanaethu timau ardal yn Aberhonddu, Ystradgynlais, Llandrindod, y Drenewydd a'r Trallwng.

1.2 Mae'r tîm yn cynnwys pum swyddog cyswllt, a gefnogir gan weithiwr cymdeithasol, sy'n gyfrifol am ymdrin â phob ymholiad ac atgyfeiriad sy'n ymwneud â phlant a theuluoedd. Mae gan swyddogion cyswllt wybodaeth drylwyr am y gwasanaethau lleol sydd ar gael, er mwyn darparu cyngor a chymorth. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi cael nifer o newidiadau rheoli ers iddo ddechrau, sydd wedi arwain at ddiffyg eglurder ynghylch cyfeiriad a diben y gwasanaeth. Staff asiantaeth sy'n rheoli'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae yna angen clir am sefydlogrwydd yn rheolaeth y tîm.

1.3 Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cynnal adolygiadau dirifedi, yn fewnol ac yn allanol. Nid yw'n amlwg sut mae'r rhain wedi darparu cyfeiriad, gwella'r ffordd o weithio, nac egluro rôl swyddogion cyswllt. Mae angen gwell cymorth gwaith cymdeithasol, canllawiau cymhwysedd a throthwy clir, ac arweiniad i'r swyddogion cyswllt er mwyn gwneud

penderfyniadau effeithiol ar y pwynt atgyfeirio. Byddai hyn yn gwella'r mynediad a'r arwyddbostio priodol i blant a theuluoedd.

1.4 Cawsom wybod gan y timau ardal bod y diffyg cymorth, cyngor a chyfeiriad ar gyfer staff Llinell Uniongyrchol Powys wedi golygu bod gwybodaeth atgyfeirio'n cael ei throsglwyddo i'r timau ardal heb ddigon o fanylder ac yn amrywio o ran ansawdd. Teimlwyd fod hyn yn amhriodol a, chan hynny, yn arafu'r system.

1.5 Nid yw'n amlwg o hyd beth yw rôl a diben Llinell Uniongyrchol Powys, na'i pherthynas â swyddogaeth cyswllt cwsmer ehangach yr awdurdod lleol. Mae angen gwneud penderfyniad nawr o ran rôl a diben Llinell Uniongyrchol Powys o fewn darpariaeth gyffredinol y gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae angen ei chyflunio mewn modd sy'n cefnogi mynediad hawdd, hygyrchedd a thryloywder.

1.6 Effaith hyn yw nad yw teuluoedd wedi cael cymorth pan oedd ei angen. Gwnaeth yr holl bartneriaid iechyd, addysg a thai, a meysydd eraill o'r gwasanaethau plant, amlygu anawsterau o ran atgyfeirio achosion i Linell Uniongyrchol Powys a chael gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi plant a theuluoedd sydd angen gwasanaethau a chymorth mewn perygl.

1.7 Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw feini prawf cyffredinol cytunedig i roi arweiniad i asiantaethau partner wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn wedi arwain at lwybrau atgyfeirio aneglur ac, o ganlyniad, mae asiantaethau yn dod o hyd i'w datrysiadau eu hunain, gan ddefnyddio rhwydweithiau eraill ac uwchgyfeirio atgyfeiriadau'n amhriodol er mwyn eu dwyn at sylw'r timau ardal.

1.8 Un datblygiad cadarnhaol yw bod dull rhanbarthol o weithredu meini prawf penderfynu wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd diogelu rhanbarthol, ac mae hwn ar fin cael ei gyflwyno ar draws pedwar awdurdod lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle i Bowys gytuno ar lwybrau clir rhwng ymyrraeth gynnar a gwasanaethau statudol. Bydd angen cyfathrebu hwn wedyn i'r cyhoedd, y partneriaid ac o fewn yr awdurdod lleol.

1.9 Bydd angen cytundeb rhieni ar gyfer achosion a fydd yn cael eu hatgyfeirio i'r Tîm o Amgylch y Teulu. Pan na ellir cyflawni hyn, mae'r achosion yn aros gyda Llinell Uniongyrchol Powys am rai wythnosau, gan arwain plant a theuluoedd i brofi oediadau a chael eu hanghofio. Canfuom fod hyn yn digwydd yn aml hefyd pan oedd plant angen asesiadau gofal a chymorth, ac roedd oediadau o ran dyrannu. Mae angen mabwysiadu dull mwy rhagweithiol er mwyn datblygu a monitro hyn, er mwyn i blant a theuluoedd gael gofal a chymorth priodol ac amserol.

1.10 Mae'n destun pryder bod tystiolaeth o weithio 'annibynnol' rhwng timau o fewn y gwasanaethau plant. Er enghraifft, er bod Llinell Uniongyrchol Powys a'r gwasanaeth Tîm o Amgylch y Teulu yn yr un gyfarwyddiaeth,

nid ydynt yn rhannu'r un ffurflen atgyfeirio na'r un fformat asesu ac nid oes ganddynt gyd-ddealltwriaeth o feini prawf gwybodaeth, cyngor a chymorth.

1.11 Mae angen egluro a chytuno ar y berthynas rhwng Llinell Uniongyrchol Powys a'r gwasanaeth y tu allan i oriau (y tîm dyletswydd argyfwng). Bydd hyn yn sicrhau bod atgyfeiriadau a ddaw i law Llinell Uniongyrchol Powys ar ddiwedd y dydd, sydd angen ymyrraeth y tu allan i oriau, yn cael ymateb priodol. Mae angen protocol gweithio i sicrhau nad yw achosion yn mynd 'ar goll' rhwng y ddau wasanaeth.

1.12 Ychydig iawn o weithgarwch sicrhau ansawdd ac archwilio sy'n cael ei gynnal yn Llinell Uniongyrchol Powys. Mae ffigurau perfformiad ar gael, ond mae'r rhain yn ymwneud â nifer y galwadau, galwadau a adawyd, amserau aros ac ati, ac nid ydynt yn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r rheolwr o ran ansawdd a chanlyniadau. Nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer cael adborth gan blant, teuluoedd, partneriaid a thimau.

1.13 Nid yw'r gwasanaeth yn gallu darparu'r 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg yn gyson.

1.14 Mae angen i'r awdurdod lleol wneud rhagor o waith i weithredu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er bod cynllunio'n amlwg, mae angen yn awr ymwreiddio'r newidiadau sydd eu hangen trwy arweinyddiaeth, hyfforddiant staff, cymorth ac arweiniad.

## Asesiad

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae'r holl bobl sydd â hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn derbyn un yn eu dewis iaith. Mae'r holl ofalwyr y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad anghenion gofalwr, waeth pa fath o ofal a ddarperir, faint yw eu hincwm ariannol, neu ba lefel o gymorth y gallai fod ei angen. Mae pobl yn derbyn asesiad amserol o'u hanghenion sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewisiadau. Mae asesiadau yn ystyried canlyniadau a safbwyntiau, dymuniadau a theimladau personol y sawl sy'n cael ei asesu a rhai'r bobl berthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae hyn cyn belled â'i bod yn rhesymol ymarferol ac yn gyson â hybu eu lles a'u diogelwch yn ogystal â lles a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau yn darparu dealltwriaeth eglur o beth fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i anghenion a nodwyd. Mae camau gweithredu, sy'n bwriadu cyflawni canlyniadau sydd o bwys i bobl, yn cael eu nodi ac yn cynnwys yr holl rai y gellir eu bodloni trwy wasanaethau ataliol neu gymunedol yn ogystal â darpariaeth arbenigol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

2.1 Canfuom nad oedd asesiadau mewn cynlluniau gofal a chymorth ac nid oedd yr arfer yn gadarn.

2.2 Nid oedd asesiadau'n adlewyrchu'r effaith yr oedd ymglymiad y gweithwyr yn ei chael ac nid oeddent yn darparu dadansoddiad clir nac yn darparu tystiolaeth gyson ar gyfer cefnogi penderfyniadau. Nid oedd meysydd o gytundeb neu anghytundeb rhwng gweithwyr a theuluoedd nac anghenion cymwys yn cael eu nodi, ac roedd angen i'r gwasanaethau fynd i'r afael â hyn. Roedd yr asesiadau fel y'u hysgrifennwyd nhw yn edrych fel erfyn di-awch ac, ar brydiau, yn adlewyrchu penderfyniadau nad oedd wedi'u tystiolaethu.

2.3 Nid oeddem yn gallu deall sut yr oedd trothwyon yn cael eu cymhwyso bob amser. Roedd rhywfaint o arolygiaeth gan reolwyr, ond roedd tystiolaeth o ddadansoddi ar goll. Ceir tystiolaeth glir nad yw asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal bob amser, ac, yn y mwyafrif o'r achosion a archwiliwyd, ychydig iawn o gyfeirio a wnaed, os o gwbl, at offeryn asesu a ddefnyddiwyd yn gyson. Nid oes model ymyrryd cyfunol yn cael ei ddefnyddio i lywio arferion, fel model seiliedig ar gryfderau a weithredir ar draws y gwasanaethau ataliol a statudol, er mwyn i weithwyr o asiantaethau eraill a theuluoedd gael dealltwriaeth gyffredin o werthoedd ac amcanion y gwaith.

2.4 Mae'r arolygiaeth gan reolwyr wedi bod yn anghyson ac, yn aml, ar goll. Nid oes sicrwydd ansawdd wedi'i sefydlu i unrhyw raddau ystyrlon. Mae rheolwyr tîm yn cynnal rhai archwiliadau achos, ond, yn aml,

roedd y rhai hynny a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol cyn yr arolygiad yn dangos lefel o bositifrwydd na rannwyd gan yr arolygwyr.

2.5 Roedd yr awdurdod wedi buddsoddi'n flaenorol yn y model sefydledig gan Wynedd. Fodd bynnag, ni chafodd hwn ei roi ar waith yn effeithiol, ac mae'r awdurdod lleol yn ystyried cyflwyno'r model 'arwyddion diogelwch' yn ei le. Mae diffyg eglurder neu ddealltwriaeth yn bodoli o ran pa fodel asesu fydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

2.6 Ni chaiff asesiadau eu cynnal bob amser o fewn amserlenni statudol. Gwnaethom olrhain ac adolygu cyfanswm o 42 o achosion, ac, o'r rhain, roedd 26 angen eu gwella ac 16 ohonynt yn cael eu hystyried yn wael. Mae rhai oediadau difrifol a sylweddol o ran cynnig gwasanaeth i blant a theuluoedd, nid oes asesiad ar gael, neu, pan fo un ar gael, bydd dadansoddiad a phenderfyniadau gwael.

2.7 Er i ni weld rhywfaint o dystiolaeth o blant a theuluoedd yn cael cymorth ac ymyrraeth amserol, gwelsom hefyd lawer o dystiolaeth a oedd yn dangos nad hyn oedd yr achos, gydag oediadau sylweddol o rai misoedd rhwng atgyfeirio ac ymyrryd. Roedd diffyg asesiad mewn achosion amddiffyn plant, diffyg asesiad ac adolygiad SERAF (fframwaith asesu'r risg o gamfanteisio'n rhywiol), a oedd yn groes i'r canllawiau statudol, absenoldeb asesiad gofal a lles, a diffyg arolygiaeth gan reolwyr o'r achosion hyn.

2.8 Mae'r diffyg asesiad, ymyrraeth a chymorth, ynghyd â gwaith dilynol ac arolygiaeth wael, wedi rhoi plant mewn perygl sylweddol ac yn parhau i wneud hyn.

## Gofal a chymorth

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae pobl yn derbyn gofal, cefnogaeth, help ac amddiffyniad amlasiantaeth amserol ac effeithiol lle bo'n briodol. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, dewis a lles, yn helpu i'w cadw'n ddiogel, ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sydd o bwys iddynt. Mae pobl yn cael cymorth i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i'w cynhwysiant cymdeithasol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

3.1 Nid oes digon o ofal a chymorth i blant a theuluoedd, ac mae diffyg arweinyddiaeth, arolygiaeth gan reolwyr a chyfeiriad er mwyn darparu gwasanaeth ymatebol a diogel.

3.2 O ganlyniad i'r prinder gwybodaeth mewn asesiadau i lywio cynlluniau gofal a chymorth hygyrch, nid yw cynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer anghenion dynodedig plant, ac mae hyn yn arwain at ganlyniadau gwael.

3.3 Roedd y cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn aml yn generig ac nid oeddem yn hyderus y byddai gweithwyr cymdeithasol a oedd yn cael yr achos yn deall canolbwynt y cynllun. Dywedodd y rhai hynny a oedd yn ymwneud â'r broses cynllunio ac adolygu wrthym fod hyn yn arwain at orfod ailadrodd y broses gynllunio yn aml, gan arwain at oedi. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o reolwyr yn herio wrth oruchwylio achosion, ac er y porir trwy rai samplau o achosion bellach, nid oes llawer o hyn yn cael ei wneud ac ychydig iawn o faterion a adroddir ar y cyd. Gwelwyd thema gyson o ddiffyg arolygiaeth gan reolwyr ac, o ganlyniad, nid oes mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dynodedig.

3.4 Mae angen i gynlluniau sicrhau pwyslais eglur ar yr effaith y mae unrhyw newid yn ei chael ar y plentyn. Ni chafwyd synnwyr o gynlluniau a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid oedd y pwyslais ar y plentyn.

3.5 Gwelsom lawer o dystiolaeth o oedi ac anghofio wrth gefnogi plant a theuluoedd yn effeithiol, ond gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod ymyrraeth arfaethedig ac amserol wedi'i rhoi i deuluoedd.

3.6 Amlygodd gofalwyr maeth ddiffyg cymorth gwaith cymdeithasol gyda phlant ag anghenion cymhleth. Oherwydd hyn, a'r diffyg cyswllt parhaus, a newidiadau aml i'r gweithwyr cymdeithasol, roedd llawer o ofalwyr maeth yn gadael y cynllun.

3.7 Yn ystod 2015–16, roedd 103 o rieni maeth ar y gofrestr. Erbyn diwedd 2016–17, roedd hyn wedi gostwng i 57. Rydym yn poeni ynghylch yr

ymyrraeth a'r cymorth y mae plant sydd angen y gwasanaeth hwn yn eu cael yn awr o ganlyniad i'r diffyg adnoddau lleol. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym fod paru anghenion plant â gofalwyr maeth yn anodd oherwydd y nifer ostyngol o ofalwyr maeth sydd ar gael, a gallai hyn olygu bod plant yn cael eu lleoli'n amhriodol.

3.8 Mae'r gofal a'r cymorth i blant a theuluoedd wedi'u heffeithio gan y newidiadau yn y timau, nifer y staff sy'n gadael y gwasanaeth, a'r defnydd o weithwyr asiantaeth.

3.9 Wrth siarad â staff, maen nhw'n gwybod eu hachosion yn dda, ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu yn y cofnodion. Mae'n amlwg bod y staff yn gweithio'n galed ac yn ymrwymedig, ac wedi bod trwy gydol yr amser hwn, ond maen nhw wedi wynebu cydweithwyr yn gadael, prinder staff, defnydd sylweddol o staff asiantaeth, a diffyg cymorth a chyfeiriad iddynt gan reolwyr.

3.10 Mynegodd y plant a'r rhieni y siaradwyd â nhw eu hanfodlonrwydd â'r anghysondeb a'r newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a benodwyd i'w hachos. Maen nhw'n poeni am yr oedi yn natblygiad eu hachosion, gydag enghreifftiau o weithwyr newydd yn herio camau gweithredu a gytunwyd yn flaenorol, ac achosion lle nad oeddent wedi cael eu briffio'n llawn.

3.11 Gwnaeth rhieni hefyd fynegi pryder ynghylch y ffaith nad yw cynlluniau cymorth yn symud yn ddigon cyflym, ac mae plant yn poeni nad ydynt yn cael eu hysbysu'n llawn o ran pam y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Gwnaethant ddweud wrthym nad ydynt yn cael eu hymgynghori ar eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac nid ydynt yn gweld eu gweithiwr cymdeithasol penodedig yn rheolaidd, yn enwedig ar ôl cael eu lleoli gyda gofalwr maeth. Maen nhw'n cael eu gadael mewn rhyw ebargofiant heb unrhyw gynllun yn ei le ar gyfer y dyfodol.

3.12 Gwelsom dystiolaeth o blant dan anfantais wrth dderbyn gofal gan nad ydynt yn cael eu cefnogi i gael cyswllt â'u rhieni. Mynegodd gweithwyr cymdeithasol ac asiantaethau partner bryder o ran y ffaith nad yw plant yn gallu meithrin perthynas gyda gweithiwr cyson. Mae hyn wedi arwain rhai plant at fynegi eu bod yn teimlo nad yw'r gwasanaeth yn eu parchu nac yn eu gwerthfawrogi.

3.13 Gwelsom dystiolaeth fod cyfranogiad teuluoedd mewn cyfarfodydd cynllunio yn anghyson. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd tystiolaeth o gynllun gofal a chymorth a lle roedd diffyg trefniadau monitro. Canfuom achosion a oedd yn cael eu gadael yn anweithredol, heb fod teuluoedd yn derbyn gwasanaeth, neu fod cynlluniau amddiffyn plant yn mynd yn angof, a gwelwyd tystiolaeth nad oedd ymweliadau statudol wedi'u gwneud yn ôl y gofyn. Gwelsom hefyd gytundebau â theuluoedd yn cael eu defnyddio fel yr unig strategaeth i leihau risg. Mae hyn, yn amlwg, yn rhoi plant mewn perygl o niwed.

3.14 Cafodd yr holl achosion uchod eu hatgyfeirio'n ôl i'r awdurdod lleol i'w hymchwilio a'u hadolygu ymhellach, er mwyn bodloni ei hun bod yr holl gamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd.

3.15 Mae angen gwella gwaith amlasiantaeth gyda phartneriaid sydd wedi colli hyder yn y gwasanaeth. Nodwyd bod y cyfathrebu'n wael ac mae diffyg dealltwriaeth o'r model darparu gwasanaeth sydd ar waith. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos gweithio mewn partneriaeth o ran cynllunio a llywio gwasanaethau.

## Diogelu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Pan fydd pobl yn dioddef camdriniaeth, esgeulustod neu niwed neu mewn perygl ohonynt, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys sydd wedi'u trefnu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau rheoli risg neu ddiogelwch yn llwyddiannus wrth leihau risg wirioneddol neu bosibl. Nid yw pobl yn cael eu gadael mewn amgylcheddau anniogel neu beryglus. Mae polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn yn cael eu deall a'u hymgorffori'n dda ac yn  cyfrannu at ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n codi. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn hyrwyddo diwylliant dysgu lle gellir archwilio mewn modd agored ac adeiladol i newidiadau a gwelliannau i ymddygiad a pherfformiad proffesiynol asiantaethau.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4.1 Mae tystiolaeth o gyfleoedd coll i ddiogelu plant. Mae diffyg systemau effeithiol i nodi risgiau, ac nid yw'r risgiau yn cael eu hasesu'n briodol ac yn gadarn.

4.2 Roedd cyfleoedd yn cael eu colli i gynnwys amrediad ehangach o bartneriaid mewn trafodaethau strategol. Roedd y rhain yn bennaf rhwng y gwasanaethau plant a'r heddlu ac, mewn rhai achosion, gallent/dylent fod wedi cynnwys fforwm amlasiantaeth – er enghraifft, iechyd, addysg a thai.

4.3 Nid oedd penderfyniadau diogelu'n amserol bob amser, a nodwyd oedi ar nifer o achosion oherwydd prinder y staff a oedd ar gael gan yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Golygai hyn nad oedd teuluoedd yn deall y pryderon yn aml neu roeddent yn llai eglur ynghylch pam roedd y mater yn parhau. Nid oes gan yr awdurdod lleol unrhyw ddull ar gyfer rheoli asesiadau risg a rennir gyda phartneriaid. Mewn dau achos, gwelsom dystiolaeth o ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blentyn posibl a pherygl o fynd ar goll. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth mewn tri achos lle na chydymffurfiwyd â'r protocolau camfanteisio'n rhywiol ar blant.

4.4 Mae archwiliadau sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol ei hun yn nodi bod cynrychiolaeth wael o asiantaethau partner mewn cyfarfodydd strategol, a bod diffyg dadansoddi beirniadol mewn adroddiadau amddiffyn plant (Adran 47). Roedd y gwaith cofnodi'n wael yn yr adroddiadau hyn yn gyffredinol. Dangoswyd hyn gan ddiffyg tystiolaeth i gefnogi'r camau gweithredu cytunedig a'r ffaith nad oedd yn amlwg a oedd yr angen am gyngor cyfreithiol neu ymchwiliad troseddol wedi'i ystyried yn briodol. Gwnaed hyn yn waeth gan y ffaith nad oedd penderfyniadau rheolwyr tîm wedi'u cofnodi'n briodol yn y cofnodion/nodiadau goruchwylio achos.

4.5 Gwnaeth partneriaid yn yr heddlu fynegi pryder ynghylch yr ymateb anghyson gan uwch-reolwyr, nad oedd yn rhoi hyder iddynt yn ansawdd y broses benderfynu. Roedd yr heddlu a staff iechyd yn poeni pe bai mater na ellid ei ddatrys ar lefel weithredol, ni fyddent yn gwybod at bwy i'w uwchgyfeirio. Roedd hyn wedi bod yn amlwg yn y gorffennol.

4.6 Roedd asiantaethau allanol hefyd yn poeni ynghylch ansawdd gwael rhai asesiadau, absenoldeb neu aneffeithiolrwydd cynadleddau grŵp teulu, ansawdd gwael y gwaith cyn cyrraedd y llys, a dadansoddiadau gwael. Nid oedd cynlluniau dilynol yn cael eu dilyn, nid oedd llais y plentyn yn amlwg, ac nid oedd digon o fynediad at wasanaethau eirioli.

4.7 Gwnaeth partneriaid addysg fynegi'r farn bod yr arfer diogelu yn ymddangos yn gadarn, ond ni chaiff ei gefnogi gan ddogfennu amserol na chadarn. Mae cyfathrebu'n brydlon â gwasanaethau addysg ynghylch achosion Adran 47 yn broblem. Nid yw gwasanaethau addysg yn cael eu hysbysu bob amser o atgyfeiriadau nac ymchwiliadau o'r fath bob sy'n ymwneud â phlant mewn addysg.

4.8 Mae partneriaid tai wedi cael peth anhawster o ran adrodd pryderon diogelu ar ôl ymweld â theuluoedd. Nid yw'r mynediad at wasanaethau yn eglur na'n syml ac, oherwydd hyn, mae oediadau mewn ymateb i bryderon diogelu. Rhoddwyd enghraifft o bryder nad oedd yn gallu gwneud cynnydd boddhaol trwy Linell Uniongyrchol Powys a'r tîm gwaith cymdeithasol. O ganlyniad, bu'n rhaid i swyddogion tai uwchgyfeirio'r achos at y prif swyddog gwaith cymdeithasol dros dro er mwyn sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd dros y plentyn.

4.9 Ni chaiff plant mewn perygl o niwed eu diogelu oherwydd y diffyg cysondeb o ran rheoli proses y fframwaith asesu risg o gamfanteisio'n rhywiol (SERAF). Mae diffyg cydymffurfiaeth â'r broses amddiffyn plant, mae oediadau mewn achosion Adran 47 ac asesiadau a gaiff eu cynnal, ac mae diffyg eglurder ac amcanion CAMPUS mewn cynlluniau diogelwch.

4.10 Yn gyffredinol, y diffyg prydlondeb a'r diffyg manyldeb wrth fynd ar drywydd pryderon a oedd yn cyflwyno'r risg fwyaf mewn gwaith diogelu. Ni wnaethom weld tystiolaeth o reoli risg ar y ffeiliau a adolygwyd gennym.

4.11 O ganlyniad i absenoldeb sicrhau ansawdd cadarn a newidiadau sylweddol ymhlith rheolwyr a staff, nid oes darlun cynhwysfawr o'r angen nas diwallwyd na pha mor agored i niwed y mae'r plant. Gan hynny, mae angen cynnal adolygiad achos o'r holl wasanaeth er mwyn cael darlun llawn o'r angen a pha mor agored i niwed y mae'r plant ac er mwyn ystyried a oes angen mesurau diogelu. Bydd plant yn parhau i fod mewn perygl hyd oni y bydd hyn yn cael ei wneud.

4.12 Yn ogystal â diffyg asesiadau a chynlluniau diogelu cadarn, mae'r gwasanaethau plant wedi cael llai o gymorth cyfreithiol. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol, ac mae rheolwyr wedi gorfod mynd ar ôl cyngor, gan achosi oediadau hir o ran dod ag achosion gerbron y llys.

4.13 Er i ni weld tystiolaeth o ymatebion amserol a chadarnhaol i atgyfeiriadau amddiffyn plant mewn dau achos, gwnaethom hefyd adolygu chwe achos lle na ddigwyddodd hyn.

4.14 Gwelsom dystiolaeth nad oedd gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dilyn. Mewn un enghraifft, nid oedd unrhyw gofnod o ymweliadau amddiffyn plant statudol am gyfnod o chwe mis, rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Mehefin 2017. Nid oedd unrhyw gofnod ysgrifenedig o ymchwiliadau Adran 47, nid oedd cyfarfodydd grŵp craidd wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol, ac ni chafodd yr achos hwn ei adolygu na'i arolygu gan reolwr tan fis Mehefin 2017

4.15 Mewn enghraifft arall, er bod materion amddiffyn plant clir yn amlwg, roeddem yn poeni nad oedd yr achos wedi cael ei fwrw ymlaen i gynhadledd. Nid oedd cynllun gofal ar waith ac nid oedd unrhyw ymweliad cartref wedi'i wneud er mwyn clywed llais y plentyn. Roedd yr atgyfeiriad cychwynnol, o ran pryderon ynghylch ymddygiad a oedd yn gorfforol niweidiol, wedi'i wneud rai blynyddoedd yn ôl, ac nid oedd unrhyw waith ystyrlon wedi'i wneud gyda'r teulu ers hynny. Gallai hyn nodi bod y plentyn wedi bod yn destun dioddefaint neu niwed parhaus.

4.16 Mae tystiolaeth o gyfleoedd coll i ddiogelu plant, serch ceisiadau am gymorth. Roedd nifer o achosion wedi'u hatgyfeirio'n ôl i'r awdurdod lleol i'w hadolygu oherwydd pryderon o ran diogelwch plant.

4.17 Mae tystiolaeth o ddiffyg systemau effeithiol i nodi ac asesu risg yn drwyadl. Mewn nifer fawr o'r achosion y gwnaethom eu holrhain, roedd diffyg diogelu amlasiantaeth effeithiol, nid oedd gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dilyn, ac roedd diffyg penderfyniadau effeithiol ac arolygiaeth rheolwyr i atal plant rhag cael eu hanghofio a'u rhoi mewn mwy o berygl. Caiff hyn ei effeithio ymhellach gan ddiffyg strwythur swyddog adolygu annibynnol cadarn a gwasanaeth sydd â diffyg arweinyddiaeth a llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio pryderon.

4.18 Roedd pennaeth diogelu dros dro wedi'i benodi yn union cyn yr arolygiad, ond mae hyn wedi achosi swydd wag ar lefel rheolwr tîm mewn rhan arall o'r gwasanaeth.

## Arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu

### Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld

Mae trefniadau arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethu yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac yn sefydlu strategaeth effeithiol gyda'i gilydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau o ansawdd a chanlyniadau da ar gyfer pobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir ar gyfer cynghorwyr, rheolwyr a staff. Mae gwasanaethau'n cael eu harwain yn dda, mae'r rheolaeth yn glir, ac mae arweinyddiaeth newid yn gryf. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau drwy gydol y sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi cymorth, gofal a chefnogaeth i bobl ac yn cyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Mae cysylltiad pobl leol yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig ddigonedd o wybodaeth a dealltwriaeth o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

5.1 Mae'r arweinyddiaeth yn y gwasanaethau plant mewn perygl mawr yn yr awdurdod lleol hwn.

5.2 Mae'n amlwg nad oes systemau a strwythurau wedi bod ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd gyda'r newidiadau yn y gwasanaeth ar lefel uwch. O ganlyniad, mae hyn wedi torri'r cysylltiad rhwng y prif weithredwr, y tîm rheoli corfforaethol a'r gwasanaethau plant a cheir diffyg arolygiaeth o ran cyfrifoldebau a rolau rhianta corfforaethol.

5.3 Mae'r gwasanaethau plant o fewn Cyfarwyddiaeth y Bobl. Caiff y gyfarwyddiaeth ei chynrychioli ar y tîm rheoli corfforaethol gan gyfarwyddwr strategol pobl dros dro a'r prif swyddog gwaith cymdeithasol dros dro. Rydym yn ymwybodol fod prif weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi bod yn darparu cymorth trwy gyfuno ei rôl barhaol gyda rôl cyfarwyddwr strategol dros dro'r awdurdod lleol

5.4 Mae'r gwasanaethau plant wedi gweld newidiadau aml i'r rheolaeth ar bob lefel yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys pedwar pennaeth gwasanaeth gwahanol, ac mae deilydd cyfredol y swydd wedi'i benodi dros dro. Mae hyn yn ychwanegol i'r trefniadau dros dro ar gyfer y cyfarwyddwr strategol rhan-amser a'r prif weithiwr cymdeithasol dros dro – sy'n cyflawni rôl y cyfarwyddwr statudol.

5.5 Mae diffyg trefniadau rheoli cadarn yn cyflwyno sefydliad bregus heb strwythurau clir i seilio arferion cadarn a diogel arnynt. Ychydig iawn o brofiad sydd gan y rheolwyr dros dro, gan gynnwys yr uwch-swyddogion, o wasanaethau plant, felly mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

5.6 Mae angen i'r awdurdod lleol gael dealltwriaeth fwy clir o bwysigrwydd

rôl y cyfarwyddwr statudol a rôl allweddol y prif weithredwr o gynorthwyo'r cyfarwyddwr statudol i gyflenwi.

5.7 Gwnaeth yr awdurdod lleol gomisiynu adolygiad allanol mawr o'r gwasanaethau plant yn ystod 2015 a 2016. Wrth ganolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth, a sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gallu bodloni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cafodd hefyd y dasg o bennu 'a oedd modd cyflawni mesurau effeithlonrwydd gwerth £2.7 miliwn sy’n gynaliadwy'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad pe bai'n cael ei roi ar waith, gallai ddarparu £1.5 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd i'r awdurdod (10% o'r gyllideb gyffredinol) a chreu incwm o £750 mil, gan arwain at gyfanswm o £2.2 miliwn. Roedd elfen fawr o'r adolygiad hwn yn dibynnu ar ailstrwythuriad cyffredinol o'r gwasanaethau plant.

5.8 Nid oedd yr adolygiad a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar fapio anghenion, ateb galwadau'r ddeddfwriaeth newydd, na sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth.

5.9 Rydym wedi nodi'r dirywiad y gwelsom yn y gwasanaethau plant dros gyfnod cymharol fyr yn ystod, ac ar ôl, yr adolygiad allanol. Gwnaeth yr adolygiad a roddwyd ar waith gan yr awdurdod lleol ansefydlogi'r gweithlu'n sylweddol ac, o ganlyniad, rhoddwyd plant mewn perygl o niwed. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol wedi methu â bodloni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol trwy sicrhau bod plant yn cael dewis o leoliadau o ansawdd da, diogelwch a chymorth effeithiol.

5.10 Roedd y rheolwyr dros dro wedi datblygu ac uwchgyfeirio cynllun gwella a oedd yn nodi lefel sylweddol o welliannau yr oedd eu hangen ym mhob agwedd ar y gwasanaeth. Roedd hyn yn symudiad allweddol o gasgliadau'r adolygiad allanol, gyda phwyslais newydd ar arfer. Fodd bynnag, roedd hwn newydd ddechrau cael ei roi ar waith, a bydd angen cymorth corfforaethol sylweddol arno.

5.11 Cydnabu'r prif weithredwr nad yw wedi rhoi'r sylw angenrheidiol i'r methiannau cynyddol yn y gwasanaeth. Mae'n amlwg fod angen i'r prif weithredwr a'i dîm rheoli corfforaethol gael nifer o ddangosyddion ar waith ar gyfer perfformiad y gwasanaeth. Mae angen gwneud mwy i ddadansoddi'r wybodaeth am berfformiad, ymgysylltu â staff ac ymgynghori â defnyddwyr.

5.12 Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd fod y gwasanaethau plant yn cael eu cydnabod fel blaenoriaeth gan yr awdurdod lleol. Nid oedd tystiolaeth gadarn o gymorth gwleidyddol na chymorth i swyddogion ar gyfer y gwasanaethau plant ar lefel uwch. Nid oedd systemau a phrosesau wedi'u sefydlu i hwyluso arolygiaeth gorfforaethol o'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth am berfformiad er mwyn sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cymorth o fewn amserlenni statudol, diffyg model sicrhau ansawdd cadarn ac effeithiol sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr, llai o gymorth cyfreithiol, swyddogaeth adnoddau dynol sy'n gadarn ond nad yw bob amser yn cefnogi'r gwaith

o recriwtio staff rheng flaen mewn modd amserol, ac anghysondeb ac oedi mewn cymorth TG i staff newydd a staff asiantaeth.

5.13 Ychydig o dystiolaeth a welir fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei deall ar lefel gorfforaethol ac, yn y cyd-destun hwnnw, caiff darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ei ystyried yn rhy gul fel cyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig.

5.14 Wrth ystyried arbedion a buddsoddiadau ariannol, mae angen cydnabod bod creu cynlluniau a gosod nodau ariannol yn y tymor byr a chanolig i'r gwasanaethau plant yn hanfodol beryglus, a bydd unrhyw ddiffyg gweithredu a buddsoddi nawr yn costio llawer mwy yn y dyfodol, a bydd yn arwain at fethiant cynyddol i fodloni cyfrifoldebau statudol.

5.15 Mae'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau plant wedi'u gosod gan y tîm arweinyddiaeth dros dro, ynghyd ag aelodau o'r tîm rheoli gweithredol. Mae hyn wedi'i gyfleu i'r staff trwy nifer o sioeau teithiol, a gafodd dderbyniad cynnes. Fodd bynnag, mae angen cymorth corfforaethol a gwleidyddol sylweddol ar y weledigaeth er mwyn ei gwireddu. Mae'n destun pryder bod diffyg ymwybyddiaeth o'r cyfeiriad strategol y tu allan i'r gwasanaethau plant, gan ystyried ei fod yn dibynnu ar gefnogaeth lawn y cyngor. Roedd gan yr uwch-reolwyr gwasanaethau plant, yr aelodau a'r prif weithredwr oll wahanol farn ar sut y dylid llunio hwn.

5.16 Mae'r diffyg cyfeiriad strategol clir a phrotocolau gweithredol yn golygu nad oes gan bartneriaid ddealltwriaeth glir o weledigaeth, strwythurau na throthwyon y gyfarwyddiaeth blant. Yn yr un modd, nid yw partneriaid yn cael disgwyliadau clir o ran eu cyfrifoldebau nhw nac yn cael eu dwyn i gyfrif.

5.17 Mae gan y cyngor lawer o aelodau newydd ers yr etholiad ym mis Mai 2017. Gyda phenodiad y deilydd portffolio newydd, gobeithir y bydd proffil y gwasanaethau plant yn dechrau codi o fewn yr awdurdod lleol, serch breuder y sefyllfa.

5.18 Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod nad yw aelodau wedi herio ers peth amser. Mae angen sicrhau bod cyfeiriad y gwasanaeth, ei dargedau a'i berfformiad yn cael eu deall yn glir gan aelodau a'u bod yn parhau i gael cymorth a hyfforddiant er mwyn herio a dwyn swyddogion i gyfrif.

5.19 Mae recriwtio a chadw staff yn parhau i fod yn bryder allweddol i'r gwasanaeth. Mae ei anallu i gadw staff profiadol wedi effeithio'n sylweddol ar y gwasanaethau plant ac, o ganlyniad, ar y plant a'r teuluoedd hynny sy'n cael eu cefnogi. Fel ag yr oedd ar 14 Gorffennaf 2017, adrodda'r awdurdod ei fod yn cyflogi 19 staff asiantaeth i wneud swyddi gwaith cymdeithasol a swyddi uwch, ac mae ganddo oddeutu 40 o swyddi gwag ar draws y gwasanaethau plant.

5.20 Mae goruchwyliaeth staff wedi bod yn anghyson; fodd bynnag, mae'r staff yn nodi bod dull mwy cyson a rheolaidd o oruchwyliaeth ffurfiol yn cael ei gyflwyno bellach. Nododd y staff ei bod hi'n haws cael gafael ar reolwyr tîm ac uwch-ymarferwyr bellach ac mae trafodaethau achos yn parhau. Mae cymorth da gan gymheiriaid yn amlwg, gyda'r staff yn cefnogi ei gilydd trwy gyfnod anodd a heriol iawn. Noda'r holl staff fod mynediad da at hyfforddiant trwy gydol y gwasanaeth a chaiff pob un ohonynt ei gefnogi i fynychu.

5.21 Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaeth weithlu ar hyn o bryd yn golygu nad yw'r awdurdod lleol yn gallu mapio cryfderau ei weithlu a, chan hynny, adeiladu gwasanaeth o'r pwynt hwnnw, er mwyn ateb y galw a diwallu'r angen. Bydd datblygu a gweithredu strategaeth weithlu yn hanfodol, nid yn unig i gadw'r staff sydd newydd eu recriwtio, ond i gadw'r rhai hynny sydd wedi aros trwy'r ailstrwythuro ond sy'n parhau i fod ag angen mwy o gymorth. Mae hyn wedi arwain at weithlu sy'n parhau i fod yn fregus iawn ar hyn o bryd.

5.22 Caiff y gallu i gyflenwi system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau plant ei herio gan ddiffyg fframwaith adolygu cytunedig, gwahanol fodelau yn cael eu ffafrio gan wahanol uwch-reolwyr, a morâl a gallu'r gweithlu.

5.23 O ganlyniad, ychydig iawn o sicrhau ansawdd a monitro perfformiad sy'n cael eu gwneud, ac mewn rhai achosion, nid ydynt yn bodoli o gwbl. Mae'n amlwg nad oes digon o sicrhau ansawdd nac archwilio ar draws y gwasanaeth. Mae'r gwaith sicrhau ansawdd sydd wedi'i wneud gan y gwasanaeth yn ymwneud â sampl fechan iawn ac, er ei fod wedi nodi ychydig o arfer da, mae'n amlwg bod gwaith sylweddol i'w wneud.

5.24 Dylai dadansoddi'r cwynion a ddaeth i law fod yn fodd o fonitro'r perfformiad mewnol. Yn ystod y flwyddyn Mehefin 2016 – Mehefin 2017, gwelwyd cynnydd graddol o gwynion yn dod i law. Ni nodwyd unrhyw dueddiadau penodol. Fodd bynnag, nodir o'n harolygiad fod nifer wedi dod o deuluoedd plant ag anableddau o ran y lefel wael o gymorth yr oeddent yn ei chael. Cydnabu'r uwch-reolwyr fod llawer o achosion wedi mynd yn angof neu wedi profi oediadau yn y gwasanaeth anableddau.

5.25 Nid oedd y rhan fwyaf o gwynion yn cael eu hymchwilio o fewn yr amserlenni gofynnol, roedd y cofnodi'n wael, ac, oherwydd hyn, roedd hi'n anodd asesu cadernid yr ymchwiliadau a'r ymatebion. Roedd gohebiaeth ar goll yn y ffeiliau a archwiliwyd, ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth o arolygiaeth gan reolwyr nac archwiliad. Nid oedd y broses gwyno yn cynnwys cynlluniau gweithredu ac nid oedd unrhyw arolygiaeth i gefnogi'r gwersi a ddysgwyd.

5.26 Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y gwasanaeth, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi cynhyrchu cynllun gweithredu uwchgyfeiriedig, sy'n nodi bod angen gwella pob rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth. Mae arweinydd y cyngor yn ymwybodol o gynllun gweithredu

uwchgyfeiriedig y cyngor ei hun, ond mae'n amlwg bod angen mwy o naratif, ynghyd ag amserlenni a cherrig milltir, er mwyn i aelodau fesur a monitro cynnydd yn effeithiol.

5.27 Serch cynhyrchu cynllun gweithredu uwchgyfeiriedig, roedd yn amlwg bod yr awdurdod lleol yn aros am adroddiad ac argymhellion AGGCC er mwyn llunio cynllun gwaith. Er ei bod yn amlwg bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud bellach, mae'n destun pryder y gallai'r awdurdod lleol fod yn aros am arweiniad gan y rheoleiddiwr allanol, yn hytrach na symud ymlaen yn gadarnhaol gyda'i gynllun cyflenwi clir ei hun.

5.28 Nid yw'r asesiad cyfredol o'r boblogaeth yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y cyngor i gomisiynu'n effeithiol er mwyn diwallu anghenion plant.

5.29 Mae natur dros dro yr uwch-dîm rheoli yn golygu na fydd mewn sefyllfa o bosibl i gyflawni'r gwaith sydd angen ei wneud ar y cyflymder a'r cwmpas sydd eu hangen. Mae cymorth corfforaethol yn hanfodol, ynghyd â phenderfyniad ar sut i wneud penodiadau parhaol i'r swyddi hanfodol hyn er mwyn darparu uwch-dîm rheoli parhaol a sefydlog.

5.30 Mae trafodaeth yn parhau ynghylch strwythur yr arweinyddiaeth ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r arweinwyr corfforaethol a gwleidyddol wedi dod i benderfyniad eto. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch lefel y ddealltwriaeth wleidyddol a chorfforaethol sy'n bodoli o ran y weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau plant. Mae angen i unrhyw newidiadau ystyried yr aflonyddwch a'r newidiadau a fydd yn dilyn a rhaid iddynt fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth realistig o effaith unrhyw ad-drefnu ar y gweithlu ac ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

5.31 Mae angen brys yn bodoli i gadarnhau a chytuno ar y strwythur uwch-reoli, ochr yn ochr â'r strwythur ehangach ar gyfer y gweithlu, ac mae'r staff yn disgwyl yn eiddgar am hyn.

5.32 Gan ystyried aflonyddwch y misoedd diwethaf, mae'r staff craidd wedi dangos gwydnwch a phroffesiynoldeb wrth ymdopi â newidiadau strwythurol a staffio sylweddol, ynghyd â newidiadau i'r gwasanaeth a ddaeth yn sgil cael penaethiaid gwasanaeth olynol, a gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth ac arweinyddiaeth. Mae'r staff rheng flaen a'r rheolwyr yn daer am gadw gafael ar unrhyw fuddion y mae'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth dros dro wedi llwyddo i'w cyflawni, ac rydym wedi gweld ymrwymiad go iawn i amddiffyn ac ymateb i blant, a'u diogelu, dan amgylchiadau anodd. Mae'r staff wedi bod yn gefn i'w gilydd trwy gyfnodau anodd iawn ac maen nhw wedi dangos i ni eu bod yn awyddus tu hwnt i symud ymlaen.

5.33 Mae'n destun pryder nad yw uwch-arweinyddiaeth yr awdurdod lleol wedi gallu sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi i ddarparu gwasanaeth effeithiol ar gyfer plant a theuluoedd sydd angen cymorth ar bob lefel. Mae angen mynd i'r afael â'r materion corfforaethol a'r

materion partneriaeth ehangach ar unwaith, oherwydd heb y lefel o gymorth corfforaethol sydd ei hangen, ni fydd y pwysau ar y gyllideb yn cael eu datrys.

## Methodoleg

### Hunanasesu

Cynhaliodd yr awdurdod lleol hunanasesiad cyn cyfnod gwaith maes yr arolygiad. Gofynnwyd i'r awdurdod ddarparu tystiolaeth ar gyfer *'yr hyn rydym yn disgwyl ei weld'* o dan bob dimensiwn allweddol a fyddai'n cael ei arolygu. Defnyddiwyd yr wybodaeth i lunio manylion y meysydd manwl i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom ddewis sampl o 30 o achosion i'w holrhain a'u hadolygu i ddechrau, ynghyd ag 20 achos cyswllt pellach. Gwnaethom adolygu nifer o'r rhain ymhellach, o restr hir a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol a oedd yn gyson â'r 13 o feini prawf a oedd yn berthnasol o'r cyfnod rhwng 1 Mehefin 2016 a 1 Mehefin 2017.

### Gwaith maes

Roeddem ar y safle ym Mhowys yn ystod yr wythnosau a oedd yn dechrau ar 17 Gorffennaf a 31 Gorffennaf 2017.

Gwnaethom adolygu cyfanswm o 42 o achosion ac, o'r rhain, cafodd 16 achos eu holrhain yn fwy manwl, gan gynnwys cyfweliadau â chyflogeion yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill.

Gwnaethom gyfweld â chwech o blant a/neu eu teuluoedd.

Gwnaethom gyfweld ag amrediad o gyflogeion yr awdurdod lleol, gan gynnwys uwch-swyddogion, y prif weithredwr, arweinydd y cyngor, a'r arweinydd portffolio ar gyfer y gwasanaethau plant.

Gwnaethom gyfweld ag amrediad eang o sefydliadau partner, a oedd yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom edrych ar bob cwyn a chanmoliaeth a gyflwynwyd ynghylch y gwasanaethau plant rhwng 1 Mehefin 2016 a 1 Mehefin 2017.

### Y tîm arolygu

Roedd y tîm arolygu yn cynnwys:

- Prif arolygydd: Ken Redman
- Arolygwyr ategol: Katy Young, Pam Clutton, Sharon Eastlake a Lesley Roberts

**Cydnabyddiaethau**

Hoffai AGGCC ddiolch i'r bobl a gyfrannodd at yr arolygiad hwn – rhieni a gofalwyr, staff a rheolwyr Cyngor Sir Powys, y darparwyr gwasanaethau a'r sefydliadau partner (gan gynnwys y sector annibynnol a'r trydydd sector) – am eu hamser, eu cydweithrediad a'u cyfraniadau at yr arolygiad hwn.